# Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 25 March 2024 at 6.33 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present** Helen Nelson (Chair), Martin O'Neil, Michael Parkin, Carrie Townsend Jones and Rebecca Fogarty.

**Co-opted member present:** Eddie Hall

**Officers Present:** Kerry Grabham – Clerk, and Ian Hughes – CSO.

**EN2403-01** **Apologies:** Cllrs. Emelie Cox and Sara Keeton.

**EN2403-02** **Declarations of Interest:** None

**EN2403-03** **Minutes of the previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 26th February 2024 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meetings held on 26th February 2024 as a true record which was proposed by Cllr. Fogarty and seconded by Cllr. Townsend Jones.

**EN2403-04** **Actions from previous meetings update**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

**EN2403-05** **Budget Monitoring Report to 31/01/2024 - Paul Beynon, RFO**

Mumbles Community Council

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to councillors, the CSO stated that no questions relating to the budget reports had been provided either to CSO or The Clerk.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st January 2024.

**EN2403-06**

**Gardeners Question Time**

Cllr Nelson provided an overview of the inaugural Mumbles Question Time which will take place between 5.30 and 7.30pm on 26th March 2024 within the café/book area of Newton Community Hall.

All arrangements have been made with the event being oversubscribed for the sixty audience places available. Cllr Nelson will be chairing the meeting which will be opened by Cllr. Scott. The panel will be made up of Sue Kent, Teifion Davies, Louise Watkins and Peter Robinson.

Sixteen questions have been submitted by the audience and Cllr. Nelson has selected eleven of these questions to reflect a range of issues and provide sufficient time for the questions to be answered.

Cllr. Nelson has circulated all relevant documents to the judges which will also be circulated to committee members.

Refreshment has been arranged at Newton Hall and following a discussion it was **AGREED** that there should be a twenty-minute interval at 6.30pm

Following the question-and-answer session Cllr Townsend Jones will close the meeting which will include the launch Mumbles Buzz and Bloom.

**EN2403-07**

**Mumbles Buzz and Bloom**

Cllr. Nelson outlined the arrangements for Mumbles Buzz & Bloom which will be launched at Mumbles Gardeners Question Time on 26th March 2024. The event will run from early May until the end of July 2024. There are to six categories, Best Business Garden, Best Ornamental Garden, Best Wildlife Garden, Best School Growing Garden, Best 'Grow Your Own' and Best Community Garden. Whilst the names of judges are yet to be confirmed each category will have two judges one of whom will be a Counsellor.

Mumbles Community Council

**EN2403-08**

**Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:**
Summary of previous months activity and next steps for April.

Lydia Graham, The Environmental Officer had previously arranged for the March Report to be circulated to all committee members. In addition, Lydia provided a written update on all matters to the CSO and The Chair, Cllr Nelson who appraised the committee. Lydia's outstanding action were detailed under agenda item **EN2403-04**. There was no additional information on the Big Climate Leap but progress on Mumbles Gardeners Question Time and Mumbles Buzz & Bloom were detailed under **EN2403-06** and **EN2403-07** respectively.

Lydia has made good progress in relation to the development of Jubilee Gardens, the details of which cannot be disclosed until the grant is approved. It is anticipated that approval will be obtained prior to April's Meeting when a full update will be provided.

Lydia had also provided updates in relation to the following: -

- Volunteer days which will be limited in the foreseeable future following the resignation of the ground's person, Martin Russell.
- Eventbrite is recommended to increase capacity of environmental events within MCC.
- Workplace recycling including progress of a recycling system at The Ostreme Centre.
- Updates on Eco Grants to MCC Primary Schools.

**EN2403-09**

**Grounds Person Discussion**
Options for gardening and maintenance to be discussed.

The Chair, Cllr. Nelson set out that a discussion needed to take place in relation to the various options available for ground maintenance to be carried out following the resignation of the ground's person, Martin Russell. Due to the confidentiality of the issue in question it was proposed by Cllr Nelson that the recoding of the meeting be stopped and the that the press and public should be excluded.

**Exclusion of Press and Public**
In accordance with the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded from the following items of business due to the confidential nature of the business to be transacted.

**RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting. The recording of the meeting stopped at 7.36pm

The committee discussed the options of MCC carrying out ground maintenance in a 'closed session' until the conclusion of the meeting.

**Meeting concluded at 8.08pm**

**Next Meeting 22nd April 2024**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol, a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2024, am 6.33 pm Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol** Helen Nelson (cadeirydd), Martin O'Neil, Michael Parkin, Carrie Townsend Jones a Rebecca Fogarty.

**Yr aelod cyfetholedig yn bresennol:** Eddie Hall

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – Clerc, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

**EN2403-01** **Ymddiheuriadau:** y cynghorwyr Emelie Cox a Sara Keeton.

**EN2403-02** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**EN2403-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2024 yn gofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2024, fel cofnod cywir, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Fogarty ac eiliwyd gan y Cynghorydd Townsend Jones.

**EN2403-04** **Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol**
Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cymryd ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD: Bod y camau gweithredu heb eu cwblhau yn cael eu diweddaru i ddangos fel rhai wedi'u cwblhau lle bo'n briodol.** Mae manylion

Mumbles Community Council

wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd.

EN2403-05 **Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 31/01/2024 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, eisoes wedi'u darparu i gynghorwyr, dywedodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau nad oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud a'r adroddiadau cyllideb wedi'u codi cyn y cyfarfod i'r swyddog na'r clerc.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Ionawr 2024.

EN2403-06 **Hawl i Holi Garddwyr**

Darparodd y Cynghorydd Nelson drosolwg o sut y bydd sesiwn gyntaf Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls yn cael ei chynnal rhwng 5.30pm a 7.30pm ar 26 Mawrth 2024 yn ardal y caffi / llyfrau Neuadd Gymunedol Newton.

Mae'r holl drefniadau wedi'u gwneud ar gyfer y digwyddiad ac mae mwy o bobl na'r 60 o leoedd sydd ar gael ar gyfer y gynulleidfa wedi ceisio archebu lle. Bydd y Cynghorydd Nelson yn cadeirio'r cyfarfod a fydd yn cael ei agor gan y Cynghorydd Scott. Bydd y panel yn cynnwys Sue Kent, Teifion Davies, Louise Watkins a Peter Robinson.

Mae 16 o gwestiynau wedi eu cyflwyno gan y gynulleidfa ac mae'r Cynghorydd Nelson wedi dewis 11 o'r cwestiynau hyn i adlewyrchu ystod o faterion a rhoi digon o amser i'r cwestiynau gael eu hateb.

Mae'r Cynghorydd Nelson wedi dosbarthu'r holl ddogfennau perthnasol i'r beirniaid a byddant hefyd yn cael eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor.

Mae lluniaeth wedi ei drefnu yn Neuadd Newton ac yn dilyn trafodaeth **CYTUNWYD** y dylid cael egwyl o ugain munud am 6.30pm

Yn dilyn y sesiwn cwestiwn-ac-ateb bydd y Cynghorydd Townsend Jones yn cloi'r cyfarfod a fydd yn cynnwys lansio Su'r Mwmbwls yn ei Blodau.

**Commented [GE1]:** This is a translation of **Mumbles Buzz and Bloom**. - GE

**Su'r Mwmbwls yn ei Blodau**

EN2403-07 Amlinellodd y Cynghorydd Nelson y trefniadau ar gyfer Su'r Mwmbwls yn ei Blodau a fydd yn cael ei lansio yn sesiwn Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls ar 26 Mawrth 2024. Bydd y digwyddiad yn rhedeg o ddechrau mis Mai tan ddiwedd mis

Gorffennaf 2024. Mae chwe chategori, Yr Ardd Fusnes Orau, Yr Ardd Addurniadol Orau, Yr Ardd Bywyd Gwyllt Orau, Yr Ardd Ysgol Orau, Yr Ardd 'Tyfu Eich Bwyd eich Hun' Orau a'r Ardd Gymunedol Orau. Er bod enwau'r beirniaid eto i'w cadarnhau bydd gan bob categori ddau feirniad a bydd un ohonynt yn gynghorydd.

**Swyddog Amgylcheddol – Adroddiad misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**
Crynodeb o weithgarwch y misoedd blaenorol a'r camau nesaf ar gyfer mis Ebrill.

**EN2403-08**

Roedd Lydia Graham, Swyddog yr Amgylchedd, eisoes wedi trefnu dosbarthu adroddiad mis Mawrth i aelodau'r pwyllgor. Yn ogystal, rhoddodd Lydia ddiweddariad ysgrifenedig ar yr holl faterion i'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau a'r cadeirydd, y Cynghorydd Nelson a fu'n arfarnu'r pwyllgor. Manylwyd ar gamau gweithredu Lydia heb eu cwblhau o dan eitem **EN2403-04** ar yr agenda. Nid oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol am Naid Fawr yr Hinsawdd ond manylwyd ar y cynnydd o ran sesiwn Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls a Su'r Mwmbwls yn ei Blodau o dan **EN2403-06** ac **EN2403-07** yn y drefn honno.

Mae Lydia wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â datblygu Gerddi Jiwbilî, ond ni ellir datgelu'r manylion nes bod y grant wedi'i gymeradwyo. Rhagwelir y ceir cymeradwyaeth cyn cyfarfod mis Ebrill pan fydd diweddariad llawn yn cael ei ddarparu.

Roedd Lydia hefyd wedi darparu diweddariadau mewn perthynas â'r canlynol: -

- Diwrnodau gwirfoddolwyr a fydd yn gyfyngedig yn y dyfodol agos yn dilyn ymddiswyddiad gofalwr y safle, Martin Russell.
- Argymhellir Eventbrite er mwyn cynyddu capasiti digwyddiadau amgylcheddol yng Nghyngor Cymuned y Mwmbwls.
- Ailgylchu yn y gweithle gan gynnwys datblygu system ailgylchu yng Nghanolfan Ostreme.
- Diweddariadau ar Grantiau Eco i Ysgolion Cynradd Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**Trafodaeth am ofalwr tir**
Opsiynau ar gyfer garddio a chynnal a chadw i'w trafod.

Mumbles Community Council

**EN2403-09** Dywedodd y Cynghorydd Nelson, y cadeirydd, fod angen trafodaeth mewn perthynas â'r opsiynau amrywiol sydd ar gael ar gyfer cynnal a chadw tir yn dilyn ymddiswyddiad gofalwr y safle, Martin Russell. Oherwydd cyfrinachedd y mater dan sylw, cynigiodd y Cynghorydd Nelson y dylid atal recordio'r cyfarfod ac y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**
Yn unol â darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, cynigiwyd bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitemau busnes dilynol oherwydd natur gyfrinachol y busnes a oedd i'w drafod.

**PENDERFYNWYD** oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod. Daeth cofnodi'r cyfarfod i ben am 7.36pm

Bu'r pwyllgor yn trafod opsiynau Cyngor Cymuned y Mwmbwls i wneud gwaith cynnal a chadw tir mewn 'sesiwn gaeedig' tan ddiwedd y cyfarfod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.08pm.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 22 Ebrill 2024**

EN2403-MI